

Rhent, Budd-dal Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor

Croeso i'ch cartref newydd.

Bydd eich Swyddog Cyllid yn cysylltu â chi o fewn 14 diwrnod i ddechrau eich tenantiaeth i weld a oes modd iddo eich helpu gydag unrhyw ymholiadau sydd gennych o bosib ynglŷn â thalu eich rhent, ac i'ch holi am eich Cais am Gredyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai os ydych eisoed wedi gwneud cais.

Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau cyn iddo gysylltu, gallwch gysylltu â'r Tîm Cyllid naill ai drwy ffonio 029 20445900, E-bostio RhentuTai@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennu i Cyngor Caerdydd, Blwch SP 6000, Caerdydd, CF10 3WG

Dylid talu rhent yn wythnosol. Os hoffech drafod talu'n fwy neu'n llai aml cysylltwch â'r rhif ffôn uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os ydych yn profi unrhyw anawsterau wrth dalu rhent peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r Tîm Cyllid ar unwaith.

Sut i Dalu eich Rhent

O fewn 14 diwrnod i ddechrau eich tenantiaeth dylech dderbyn cerdyn sweipio rhent; cafodd hyn ei archebu'n awtomatig pan ddechreuodd eich tenantiaeth

Gallwch dalu trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:

Ar-lein yn - www.caerdydd.gov.uk/tai
- Bydd angen eich rhif cyfrif arnoch. Gallwch dalu gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

System Dalu Awtomataidd - ffoniwch C2C ar 029 20872088 - bydd angen rhif eich cyfrif arnoch. Gellir talu trwy gerdyn debyd neu gredyd

Dros y ffôn 029 20445900. Gellir talu gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

Archeb Sefydlog – Gellir gofyn am ffurflenni drwy gysylltu â'r Tîm Cyllid.

Swyddfa'r Post - Bydd angen eich cerdyn sweipio rhent i dalu.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Pwyntiau Talu – Bydd angen eich cerdyn rhent arnoch i dalu. Nodwch y gall talu yn y modd hwn olygu y bydd yr arian yn cymryd llawer hirach i gyrraedd eich cyfrif rhent.

Os oes angen i chi drafod eich cyfrif rhent neu os oes angen ffurflen archeb sefydlog neu gerdyn rhent newydd arnoch neu os oes gennych ymholiad am faint y mae angen i chi ei dalu ffoniwch y Tîm Cyllid ar **029 20445900**.

Hysbysiad o newidiadau i rent

Cewch Hysbysiad o Amrywiad o leiaf 28 diwrnod cyn y bydd eich costau gwasanaeth neu rent yn newid. Fel arfer anfonir Hysbysiad o Amrywiad atoch bob mis Mawrth cyn y cynnydd blynyddol ym mis Ebrill.

Nid yw hyn yn cynnwys newidiadau oherwydd faint o Gredyd Cynhwysol neu fudd-dal tai a gewch felly bydd angen i chi sicrhau eich bod yn diweddarau eich cofnod/hawliad.

Bydd yr Hysbysiad o Amrywiad hefyd yn esbonio y gallwch roi gwybod yn ysgrifenedig os na hoffech chi barhau gyda'ch tenantiaeth ar y rhent newydd. Gofynnir o hyd am rybudd o bedair wythnos er mwyn gorffen eich tenantiaeth a chodir tâl am rent yn ystod y cyfnod hwn.

Gallai Credyd Cynhwysol/Budd-dal Tai helpu i dalu ychydig o'ch rhent os ydych ar incwm isel. Hyd yn oed os ydych yn derbyn budd-daliadau, efallai y bydd angen i chi dalu ychydig o rent; bydd hyn yn dibynnu ar eich incwm, eich cynilion a manylion eich cartref. Mae'n bosibl na fyddwch yn gymwys os oes gennych gynilion sy'n fwy na'r lefel a gytunwyd gan y Llywodraeth.

I hawlio Credyd Cynhwysol a Budd-dal y Dreth Gyngor bydd angen i chi lenwi a dychwelyd ffurflen gais o'r gwefannau perthnasol fel y rhestrir isod ac efallai y bydd gofyn i chi ddangos prawf yn eich hyb lleol/drwy'r post i gefnogi eich cais. Gallwch bostio eich ffurflen i:-

Adran Budd-daliadau
Rhadbost CF429
Blwch Post 6000, Caerdydd
CF11 0WZ

Dylech hawlio ar unwaith gan y gallai unrhyw oedi arwain at golli budd-daliadau. Cysylltwch â'r Tîm Cyllid os oes angen help neu arweiniad arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais. Os cewch unrhyw anhawster darparu'r prawf, efallai y bydd yn gallu helpu neu drefnu ymweliad â'ch cartref.

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol/Budd-dal Tai rhaid i chi roi gwybod am unrhyw newidiadau i'ch incwm, eich cynilion, neu eich aelwyd i'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan y gall y newidiadau hyn effeithio ar eich hawl. Os nad ydych yn rhoi gwybod am y newidiadau hyn wrth iddynt ddigwydd, gallech dderbyn gormod o fudd-daliadau. Gellir adennill arian gormodol gennych a gallech gael eich erlyn os methwch roi gwybod am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau'n fwriadol.

Gall eich Swyddog Cyllid eich helpu trwy:

- Eich cynorthwyo i hawlio Credyd Cynhwysol a Budd-dal y Dreth Gyngor/Budd-dal Tai.
- Rhoi cyngor ar fudd-daliadau lles eraill.
- Rhoi manylion am ble y gallwch gael help gyda'ch dyledion.
- Os bydd ôl-ddyledion gennych na allwch eu had-dalu'n syth gall eich Swyddog Cyllid drefnu eich bod yn ad-dalu eich ôl-ddyledion mewn symiau rhesymol bob wythnos.
- Os ydych yn derbyn budd-daliadau lles gallai fod yn bosibl talu swm bach i ni'n uniongyrchol i leihau'r ôl-ddyledion.

Gallwch alw draw i gyflwyno'ch dogfennau neu i roi gwybod i ni am newidiadau yn eich amgylchiadau. Bydd angen gwneud apwyntiad os ydych am gael help i lenwi ffurflen hawlio newydd neu ar gyfer ymholiad cymhleth. I wneud apwyntiad ffoniwch: 029 2087 1391 neu e-bostiwch: budd-daliadau@caerdydd.gov.uk

Hyb Cynggori Canol Caerdydd

Llawr Gwaelod Tŷ Marland Y Sgwâr
Canolog, Caerdydd CF10 1EP
Ar agor: Llun - Mer 8:45 i 5:00; Iau 10 i 6:30;
Gwe 8:45 i 5:00

Hyb Llaneirwg

Llyfrgell Llaneirwg, 30 Crickhowell Road,
CF3 0EF
Ar agor: Llun - Mer 9:00-18:00; Iau
10:00 i 19:00; Gwe 9:00 i 18:00, Sad
9:00 i 17:30

Hyb Llanedern

Swyddfa Dai, The Powerhouse,
CF23 9PN
Ar agor: Llun - Gwe 9:00 i 17:00

Hyb Llanrhymni

Llyfrgell Llanrhymni, Rhodfa Countisbury
CF3 5NQ
Ar agor: Llun - Iau 9:00 i 18:00; Gwe
10:00 i 19:00 a Sad 9:00 i 17:30

Hyb Butetown

Hyb Loudoun, Plas Iona, Butetown
CF10 5HW
Ar agor: Llun a Mawrth 9:00 i 18:00, Merch
10:00 i 18:00, Iau a Gwener 9:00 i 17:00

Swyddfa Dai Trelái

4 Grand Avenue CF5 4GJ
Ar agor: Llun - Mer 9:00 i 17:00; Iau
10:00 i 17:00; Gwe 9:00 i 17:00

Y Sblot

Canolfan Hamdden STAR
Heol y Sblot CF24 2BZ
Ar agor: Mawrth a Mercher 9:00 i 17:00

Y Tyllgoed

Llyfrgell y Tyllgoed
Rhodfa Doyle, CF5 3HU
Ar agor: Iau 9:00 i 12:45 14:00 i
17:00

Treganna

Llyfrgell Treganna
Stryd y Llyfrgell
Treganna CF5 1QD
Ar agor: Maw 9:00 i 13:00 a 14:00 i
18:00

Adamsdown

Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd
50 Meteor Street, Adamsdown CF24 0HE
Ar agor: Mer 9:00 i 13:00 a 13:45 i 16:30

Nodwch fod Swyddfeydd y Cyngor ar gau ar
Wyliau Banc cyhoeddus.

Gwasanaeth Ymweld â Chartrefi Os oes
angen help arnoch i lenwi eich ffurflen ac os
na allwch ddod i unrhyw un o'r swyddfeydd
uchod ffoniwch ni ar 20537550 i drefnu
ymweliad â'ch cartref. Gallwch anfon e-bost i
budd-daliadau@caerdydd.gov.uk

Ymholiadau am Fudd-daliadau ar y Ffôn

Gallwch ffonio'r gwasanaeth hwn ar: 029
20872088

Tenantiaid y Cyngor - Ymholiadau ynghylch cyfrif rhent

E-bost: RhentuTai@caerdydd.gov.uk
Ffôn: **(029) 20445900**

Ôl-ddyledion – Os methwch â thalu'r rhent ac
nad ydych yn cysylltu â'ch Swyddog Cyllid
byddwch yn derbyn llythyr i roi gwybod i chi am y
sefyllfa. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu
â'ch Swyddog Cyllid ar y cam hwn i drafod eich
ôl-ddyledion fel na fyddant yn codi ymhellach.

Fodd bynnag, os na thelir arian neu os na wneir
cyswllt, bydd y Swyddog Cyllid yn ymweld â'ch
cartref. Yn yr ymweliad hwn, bydd y Swyddog
Cyllid yn trafod eich ôl-ddyledion ac yn cynnig
cyngor i chi ar hawlio Credyd Cynhwysol a
Budd-dal y Dreth Gyngor/Budd-dal Tai. Os na
allwch glirio eich dyled mewn un taliad gall eich
Swyddog Cyllid drefnu i chi ad-dalu eich ôl-
ddyledion mewn symiau rhesymol bob wythnos.

Os torrir y cytundeb ac os bydd yr ôl-ddyled yn
parhau i godi gallwn gyflwyno hysbysiad
cyfreithiol i chi i ddod â'ch tenantiaeth i ben.
Bydd cyfle gennych i apelio yn erbyn yr
hysbysiad hwn. Mae hwn yn fater difrifol
oherwydd os bydd ôl-ddyledion yn parhau ac os
nad yw'r apêl yn llwyddiannus, byddwn yn
gwneud cais i'r Llys Sirol am feddiant o'ch
cartref.

Llys

Os bydd y Cyngor yn penderfynu gwneud cais i'r Llys Sirol gwahoddir chi i wrandawriad. Codir costau llys arnoch a chaiff y rhain eu hychwanegu at eich cyfrif rhent. Bydd y Barnwr yn ystyried eich achos a gall benderfynu ar unrhyw un o'r gorchymynion canlynol.

Gorchymyn Ildio Meddiant

Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i feddiannu eich eiddo pan ddaw'r gorchymyn i rym. Mae hyn yn golygu y cewch chi a'ch teulu eich troi allan o'ch cartref. Os mai tenant rhagarweiniol neu isradd ydych, dyma'r unig orchymyn y gall y Barnwr ei gymeradwyo.

Gorchymyn Ildio Meddiant Ataliedig

Mae hyn yn rhoi'r cyfle i wneud taliadau rheolaidd o'r rhent cyfan sy'n ddyledus yn ogystal â chyfran o'r ôl-ddyledion; bydd swm y taliadau'n cael ei nodi yn y gorchymyn. Ar yr amod bod telerau'r gorchymyn yn cael eu cynnal ni fydd y Cyngor yn eich troi allan o'ch eiddo am ôl-ddyledion rhent.

Gorchymyn Ildio Meddiant Gohiriedig

Mae hyn yn rhoi'r cyfle i dalu'n rheolaidd am y rhent cyfan sy'n ddyledus yn ogystal â chyfran o'r ôl-ddyledion. Fodd bynnag, os na chynhelir telerau'r gorchymyn, bydd y Cyngor yn ailgyflwyno eich achos i'r Llysoedd ac ychwanegir costau pellach at eich cyfrif. Bydd gwrandawriad arall a gall y Barnwr gymeradwyo Gorchymyn Ildio Meddiant neu Orchymyn Ildio Meddiant Ataliedig.

Troi Allan

Os yw'r Llys wedi dyfarnu Gorchymyn Ildio Meddiant Ataliedig ac nad ydych wedi glynu at delerau'r gorchymyn, neu os yw'r Llys wedi dyfarnu Gorchymyn Ildio Meddiant, gallwch chi a'ch teulu gael eich troi allan o'ch cartref.

Cofiwch – peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'ch Swyddog Cyllid i drafod eich cyfrif hyd yn oed os ydych wedi derbyn Hysbysiad yn Ceisio Meddiant, Hysbysiad i Ddod â Thenantiaeth Ragarweiniol i ben, Hysbysiad yn Ceisio Meddiant o Denantiaeth Isradd neu os ydych yn wynebu achos Llys neu droi allan am ôl-ddyledion rhent.

